# Deddf Rheoli Llygredd 1974, Adran 61

# Canllawiau ar Gwblhau Cais Am Ganiatâd Ymlaen Llaw

# Sŵn oddi wrth Safleoedd Adeiladu a Dymchwel

**Cyflwyniad**

Mae Adran 61 o Ddeddf Rheoli Llygredd 1974 yn caniatáu i ddatblygwyr a'u contractwyr adeiladu wneud cais am 'ganiatâd ymlaen llaw' ar gyfer gweithgareddau cynhyrchu sŵn yn ystod cyfnod adeiladu datblygiad.

Os yw eich datblygiad yn/yn debygol o gael effaith sylweddol ar safleoedd cyfagos oherwydd sŵn neu ddirgryniad argymhellir eich bod yn gwneud cais i'r Cyngor am ganiatâd ymlaen llaw. Neu gallwch gael eich gwahodd i wneud hynny drwy gais cynllunio.

Mae cydsyniad blaenorol yn gytundeb rhwng y datblygwr a'r Cyngor sy'n caniatáu i lefel resymol o sŵn ddigwydd. Gall cael cytundeb o'r fath hefyd eich amddiffyn rhag camau cyfreithiol pellach.

Mae'r dull rhagweithiol hwn yn gofyn am asesu dulliau gweithio'r adeiladu a fydd yn cael eu defnyddio i ymgymryd â'r gwaith a'r rhagolwg o lefelau sŵn tebygol yr adeiladu mewn derbynyddion sensitif. Y bwriad yw rheoli creu'r sŵn adeiladu gan ddefnyddio'r 'dull ymarferol gorau' (BPM) sydd ar gael i gwblhau'r gwaith.

Mae'r ddogfen ganllawiau hon yn cynnig templed ar gyfer cyflwyno ceisiadau s.61. Dylai datblygwyr a chontractwyr adeiladu ymgyfarwyddo ag Adran 60 a 61 o'r Ddeddf cyn cyflwyno Cais.

Ni fydd caniatâd blaenorol yn cael ei roi os yw'r gwaith adeiladu, gan gynnwys gwaith dymchwel (ac eithrio mân waith paratoadol neu waith galluogi a gytunwyd ymlaen llaw), eisoes wedi dechrau. Os yw'r gwaith wedi dechrau, yna mae'r Cyngor yn debygol o gyflwyno rhybudd s.60 yn nodi ei delerau a'i amodau ei hun.

Mae rheoli sŵn yn berthnasol i'r gweithiau canlynol:

(a) codi, adeiladu, addasu, atgyweirio neu gynnal a chadw adeiladau, strwythurau neu ffyrdd;

(b) chwalu, agor neu dyllu o dan unrhyw ffordd neu dir cyfagos mewn cysylltiad ag adeiladu, archwilio, cynnal a chadw neu symud gwaith;

(c) gwaith dymchwel neu garthu;

(d) unrhyw waith adeiladu peirianneg (p'un a yw wedi ei gynnwys hefyd yn (a), (b) neu (c) uchod)

Mae ffurflen gais ynghlwm wrth y nodyn canllaw hwn. Wrth gyflwyno cais fe'ch cynghorir i gynnwys cymaint o wybodaeth â phosibl i osgoi unrhyw oedi cyn rhoi'r caniatâd. Gallwch atodi dalen/au (atodiadau) ar wahân os oes angen y manylion gofynnol.

**Rhaid cyflwyno'r ffurflen gais wedi'i chwblhau o leiaf 28 diwrnod cyn dechrau ar y gwaith arfaethedig.**

Er hynny, anogir contractwyr i gyflwyno'r cais mewn fersiwn ddrafft ymhell ymlaen llaw fel y gellir gwneud newidiadau priodol cyn i'r cais terfynol gael ei gyflwyno.

Unwaith y bydd cais am ganiatâd ymlaen llaw wedi ei wneud gan y contractwr yna mae gan yr Awdurdod Lleol 28 diwrnod i unai:

- Dderbyn y cais yn ei gyfanrwydd a rhoi caniatâd
- Derbyn y cais ond rhoi caniatâd â'r amodau ynghlwm
- Gwrthod y cais

Mae gan yr ymgeisydd yna gyfle i apelio i'r llys Ynadon o fewn 21 diwrnod i'r penderfyniad os cafodd eu cais ei wrthod, neu os ydynt yn teimlo bod amod yn afresymol neu bod penderfyniad heb ei wneud gan yr Awdurdod Lleol o fewn 28 diwrnod.

Argymhellir bod yr ymgeisydd yn gwneud cais drafft i'r Awdurdod Lleol, fel bod modd trafod a chytuno ar unrhyw faterion a nodir ar hyn o bryd, i baratoi at gyflwyno drafft terfynol y cais. Dylai hyn leihau unrhyw oedi yng nghamau diweddarach y broses.

**Asesu Sŵn**

Dylech benodi ymgynghorydd acwstig â phrofiad mewn sŵn adeiladu ac asesu a rhagfynegi dirgryniad i gwblhau eich cais s.61. Dylid cwblhau'r asesiad yn unol â Safon Brydeinig 5228 (Rhannau 1 a 2) a'i wneud ar ffurf y Dull ABC.

Er mwyn asesu effaith gwaith swnllyd, dylid sefydlu lefelau gwaelodlin o sŵn amgylchynol a dirgryniad ar ffin y safle. Gall data / manylion fod ar gael o'r gwaith a wnaed ar gyfer cam cais cynllunio'r datblygiad. Dylai data'r sŵn a dirgryniad a fesurwyd gynnwys canlyniadau am gyfnodau lle cafodd y gwaith yn cael ei wneud.

Dylid cyfrifo rhagfynegiadau'r sŵn adeiladu ar un fetr, maes rhydd, o wynebau'r derbynyddion sensitif sydd wedi'u heffeithio waethaf (yn gyffredinol y derbynyddion agosaf), gan felly ganiatáu i asesiad sŵn 'y senario gwaethaf' gael ei wneud.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â ni ar 0300 123 6696 neu anfonwch neges e-bost at Ben-y-bont ar Ogwr: pollution-bridgend-srswales@valeofglamorgan.gov.uk

Caerdydd: pollution-cardiff-srswales@valeofglamorgan.gov.uk

Bro Morgannwg: pollution-vale-srswales@valeofglamorgan.gov.uk

## Dosbarthiadau ac Amrywiadau

Gellir gofyn am newidiadau i gydsyniadau Adran 61 unwaith y bydd gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Yn dibynnu ar natur y newid bydd hyn ar ffurf goddefeb neu amrywiad i'r caniatâd.

Goddefebau

Mae goddefebau yn berthnasol i newidiadau materol (h.y. y rhai a ragwelir fydd yn arwain at fwy o effeithiau sŵn) i ddulliau gweithio. Gall hyn fod yn adolygiad i oriau gwaith, hyd gwaith, ymestyn oriau gwaith cyson, neu newidiadau mawr i'r fethodoleg adeiladu arfaethedig e.e. newidiadau i eitemau offer mawr. Nid oes darpariaeth ffurfiol ar gyfer goddefebau yn CoPA 1974 (ac eithrio trwy wneud cais Adran 61 newydd), ond mae awdurdodau lleol wedi hwyluso gweithdrefnau ar eu cyfer, fel arfer fel a ganlyn:

Gwneir cais am oddefebau o leiaf 14 diwrnod cyn cymhwyso'r dulliau arfaethedig wedi'u haddasu a'u hanfon at yr Awdurdod Lleol drwy e-bost. Mae ffurflen templed ynghlwm wrth ddiwedd y nodyn canllaw hwn.

Lle mae aildrefnu yn ymwneud â gwaith o natur gritigol (megis gweithgareddau allweddol sy'n debygol o ohirio gweithgareddau allweddol eraill) gwneir ceisiadau lle bo'n ymarferol o leiaf 48 awr ymlaen llaw ac o leiaf 7 diwrnod ymlaen llaw os disgwylir i'r gwaith bara am gyfnod o 5 diwrnod neu fwy.

Ceisir goddefeb drwy gyfrwng cais yn ysgrifenedig sy'n nodi'r rhaglen neu'r dull adeiladu a'r cyfrifiad sŵn perthnasol. Bydd sylw hefyd yn cael ei roi i unrhyw faterion insiwleiddio sŵn/tai dros dro o ganlyniad i'r gweithiau diwygiedig yn unol â chynlluniau/polisïau Lliniaru Sŵn a Dirgryniad penodol.

### Amrywiadau

Mae amrywiadau'n berthnasol i fân newidiadau i gydsyniad Adran 61 na fydd yn newid effeithiau cyffredinol y gwaith a ragwelir, er enghraifft newid i amseru gweithgaredd o fewn oriau y cytunwyd arnynt a chyfnod gwaith, neu fân newidiadau i fethodolegau gwaith.

Gwneir cais am amrywiadau drwy e-bost lle bo'n ymarferol 7 diwrnod, ond o leiaf 48 awr cyn cymhwyso'r dulliau wedi'u haddasu, gan ddefnyddio'r templed isod. Mae ffurflen templed ynghlwm wrth ddiwedd y nodyn canllaw hwn.

Bydd y goddefebau a’r amrywiadau y cytunwyd arnynt yn cael eu e-bostio gan swyddog priodol o'r Awdurdod Lleol.

### Hysbysiad o Addasiadau

Lle mae gweithio o'r fath y tu allan i oriau arferol wedi cael ei drafod a'i dderbyn, bydd derbynyddion sensitif cyfagos yn cael eu hysbysu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ynghylch natur a hyd tebygol y gwaith diwygiedig.

### Gor-redeg

Mae'n debygol y bydd amgylchiadau lle bydd oriau gwaith arfaethedig yn gor-redeg, naill ai am resymau iechyd a diogelwch neu ymarferoldeb peirianyddol. Os yw gor-redeg yn digwydd bydd yr awdurdod lleol yn cael gwybod dros y ffôn, gyda'r rheswm am y digwyddiad a chadarnhad dros e-bost. Byddai enghreifftiau o'r math o waith a ragwelir yn cynnwys arllwys concrit sy'n cymryd mwy o amser na'r disgwyl oherwydd methiant offer.

**Gwaith mewn Argyfwng**

Yn achos gwaith sydd ei angen mewn ymateb i argyfwng neu y byddai'n anniogel neu'n niweidiol i'r gwaith parhaol os na fyddai'n cael ei gwblhau, bydd yr awdurdod lleol yn cael ei hysbysu cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol o'r rhesymau dros y gwaith, a'r hyd tebygol.

## CWESTIYNAU CYFFREDIN

**Beth yw cydsyniad 61?**

Dyma lle mae contractwr adeiladu yn gwneud cais i ni am ganiatâd blaenorol ar gyfer gwaith swnllyd o dan Adran 61 Deddf Rheoli Llygredd 1974. Mae'r cais yn manylu ar sut mae sŵn i'w reoli ar y safle. Yr egwyddor sylfaenol yw bod y Modd Ymarferol Gorau (BPM) yn cael ei fabwysiadu. Mae gan hyn ddiffiniad cyfreithiol ond yn gryno mae'n ofynnol i'r person/au a gaiff y caniatâd i leihau sŵn a dirgryniad sy'n deillio o'i weithrediadau ac i wneud hynny drwy'r dewis priodol o offer, dulliau adeiladu a rhaglennu.

**Beth yw'r gofynion penodol ar y contractwr o dan gydsyniad Adran 61?**

**a) Egwyddorion cyffredinol**

Yng nghamau cynllunio'r rhaglen adeiladu a sefydlu'r safle, mae angen i'r contractwr ddangos bod effaith sŵn a dirgryniad wedi cael ei ystyried yn iawn wrth ddewis peiriannau ac offer a hefyd, lle bo'n bosibl, yng nghynllun y safle ac amserlennu'r gwaith. I'r perwyl hwn mae'r cydsyniad yn nodi'r dulliau gwaith a mesurau lleihau sŵn sydd eu hangen i gadw'r sŵn i'w leiafswm.

**b) Manylion am y gwaith i'w wneud**

Dylid darparu manylion am y math o waith i'w wneud ar bob cam.

**c) Lefelau Sŵn**

Fel rhan o'r cais mae'n rhaid i'r contractwr roi gwybod am lefelau sŵn a ragwelir mewn safleoedd preswyl yr effeithir arnynt dros gyfnod y prosiect y gwneir cais amdano. Mae'r lefelau sŵn hyn a ragwelir wedi'u cyfrifo ar sail yr offer sy'n cael ei ddefnyddio, ar unrhyw ran o raglen y prosiect a'r amser y defnyddir yr offer yn ystod unrhyw gyfnod penodol. Trwy gyhoeddi'r cydsyniad, rydym yn derbyn y lefelau a ddarperir ar y sail bod BPM wedi'u mabwysiadu o fewn y ffigurau a gyfrifwyd.

**d) Camau arfaethedig i leihau sŵn a dirgryniad**

Dylid nodi y modd ymarferol gorau (BPM) bob amser, manylion y mesurau BPM penodol i'w defnyddio (gweler Safon Prydeinig 5228 i gael arweiniad).

**e) Monitro sŵn**

Mae'n ofynnol i'r contractwr ymgymryd â monitro sŵn drwy gydol y gwaith a lle nodir eu bod yn angenrheidiol, monitro dirgryniadau. Mae'r monitro hwn yn cael ei gymharu yn erbyn y lefelau a ragwelir a lle mae'n fwy na'r lefelau hyn ar unrhyw adeg o'r dydd na'r nos, mae'n ofynnol i'r contractwr adolygu'r gwaith a lle bo angen cymryd camau cywiro i leihau lefelau'r sŵn ar gyfer cyfnodau yn y dydd neu'r nos yn y dyfodol.

Defnyddir y monitro sŵn hefyd i fonitro gormodedd insiwleiddio sŵn/lefelau sbardun ailgartrefu dros dro y gallai'r contractwr/prosiect fod wedi'u mabwysiadu. Mae'n ofynnol cyflwyno canlyniadau unrhyw ganlyniadau monitro sŵn a dirgryniad wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen, i ni.

**f) Cyfathrebu**

Mae'n ofynnol i'r contractwr/hyrwyddwr ddarparu gwybodaeth i drigolion lleol ar ffurf cyfarfod, canolfan galw heibio neu gylchlythyr cyn i'r gwaith ddechrau, felly bod modd rhoi manylion digonol am y rhaglen. Drwy gydol y prosiect, lle mae gwaith wedi'i gynllunio yn y nos, gellir darparu cylchlythyron ychwanegol gyda'r opsiwn o ganolfannau galw heibio a/neu gyfarfodydd ychwanegol. Dylai'r cyfathrebiad roi enw a rhif ffôn ar gyfer y prif gyswllt ar gyfer y gwaith (nid y Cyngor).

Gall cyswllt cymunedol helpu'n fawr i leihau nifer unrhyw gwynion gan y bydd yn dangos na fydd y sŵn yn ddi-ben-draw a bydd yn rhoi sicrwydd y bydd rhywun i ymateb pe bai unrhyw ofid yn cael ei achosi.

**g) Gwaith y tu allan i oriau**

Dylid rhoi oriau gwaith ar gyfer pob dull neu gam o'r gwaith, a gall hyn gynnwys rhaglen sy'n rhoi manylion am weithrediadau gwaith i'w gwneud ar gylchoedd dyddiol (neu rai eraill)

**Beth os yw'r contractwr yn newid y rhaglen waith? A ganiateir hyn?**

Lle mae'r gwaith yn dibynnu ar eiddo rheilffyrdd neu amserlennu gwaith o amgylch croestoriad ffyrdd prysur, efallai y bydd angen gwneud newidiadau i'r rhaglen waith. Mae'r cydsyniad yn caniatáu i'r contractwr wneud cais am oddefeb neu amrywiad i gynnwys y newidiadau hyn. Mae angen y goddefeb o leiaf 14 diwrnod cyn y gwaith arfaethedig. Bydd y contractwr yn cynnwys manylion ynglŷn â sut y bydd yn rhoi gwybod i drigolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y gwaith. Mae angen rhoi'r rhesymau hefyd pam na ellir gwneud y gwaith o fewn telerau'r cydsyniad.

**A allwn ni atal cyhoeddi cydsyniad Adran 61?**

Mae gennym yr hawl i benderfynu cais gan gontractwr o fewn 28 diwrnod ac mae hawl i apelio i'r contractwr os yw'r Cyngor yn atal rhoi cydsyniad. Felly, mae'n rhaid i ni fod â sail nad yw lefel y wybodaeth a ddarperir yn ddigonol cyn gwneud penderfyniad i atal cydsyniad. Dylid nodi hefyd y gallwn ychwanegu amodau at y cydsyniad, lle ystyrir bod unrhyw ofynion ychwanegol yn angenrheidiol. Anogir contractwyr i gyflwyno'r cais mewn fersiwn ddrafft

rhywbryd cyn i’r gwaith ddechrau, fel y gellir gwneud newidiadau priodol cyn i'r cais terfynol gael ei gyflwyno.

**Pryd mae inswleiddio sŵn a/neu ailgartrefu dros dro yn cael eu cynnig i drigolion yr effeithir arnynt?**

Dim ond os oes gan y prosiect ei bolisi penodol ei hun y darperir inswleiddio sŵn a/neu ailgartrefu dros dro, sydd ar y cyfan ond yn berthnasol ar gyfer prosiectau seilwaith trafnidiaeth. Mae'r polisi hwn yn cydnabod, lle mae angen gweithio yn ystod y nos, y bydd angen lliniaru sŵn oddi ar y safle i leihau'r aflonyddwch a'r amlygiad i  sŵn o fewn yr ystafelloedd gyfanheddol yr effeithir arnynt.

**DEDDF RHEOLI LLYGREDD 1974**

**Ffurflen Gais ar gyfer Cydsyniad Adran 61**

| | |
|---|---|
| **Rhif y Cyflwyniad:** | |
| **Cyfeirnod yr Awdurdod Lleol:** | |

**At Wasanaethau Rheoliadol A Rennir**

**RWYF I/RYDYM NI TRWY HYN YN GWNEUD CAIS am gydsyniad ymlaen llaw o ran gwaith i'w wneud**
ar y safle a nodir yn adran 1 isod, o dan Adran 61 Deddf Rheoli Llygredd 1974.

Llofnod ..................................................................................................... Dyddiad
............................................................

MANYLION YR YMGEISYDD:

Enw…………………………

Cyfeiriad…………………………..

……………………………………………………………………………………………………..

Cod Post…………………..

Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig...................................................................

……………………………………………………………………………………………………….

Cod Post

Ffôn.....................................................................

E-bost:…………………………………………………………………..

Diddordeb yr ymgeisydd yn y safle....................................................

| | |
|---|---|
| 1. Cyfeiriad y gwaith arfaethedig a chynllun y lleoliad | |

| | |
|---|---|
| 2. Enw a chyfeiriad y prif gontractwr. | |
| 3. Manylion o waith i'w wneud, gan gynnwys unrhyw weithredoedd gosod pyst seiliau, gwaith dymchwel, mathru concrit a gwaith sgrinio, arllwys concrit ac arnofio pwer | |
| 4. Dulliau i'w defnyddio ar bob cam y gwaith | |
| 5. Oriau Gwaith<br><br>A ragwelir y bydd unrhyw sefyllfaoedd lle yr ymgymerir â gwaith y tu allan i oriau gwaith 'arferol'?<br><br>Os felly, darparwch resymwaith/ gyfiawnhad cadarn ar gyfer unrhyw waith y mae angen ei wneud y tu allan i oriau gwaith 'arferol' a'r oriau gwaith arfaethedig | |
| 6. Nifer, math a gwneuthuriad y peiriannau (gan gynnwys cerbydau trwm), gan ddatgan Lefelau Pwer Swn. | |
| Tabl 6.1 Rhestr Lawn y Peiriannau – gan gynnwys nifer a math y cywasgyddion/ goleuadau traffig dros dro i'w defnyddio | |

| | |
|---|---|
| 7. Camau arfaethedig i leihau swn a dirgrynu/ modd ymarferol gorau i'w ddefnyddio er mwyn rheoli sŵn | |
| 8. Lefelau swn a dirgrynu a ragwelir | |
| 9. Amcangyfrif o hyd y gwaith – gan gynnwys dyddiadau dechrau a gorffen | |
| 10. Person i gysylltu ag ef os bydd cwyn | |
| 11. Adnabod derbynyddion preswyl agosaf a chamau arfaethedig i sicrhau na chaiff preswylwyr eu heffeithio'n niweidiol gan swn a dirgrynu, gan gynnwys unrhyw leoliadau monitro arfaethedig | |
| 10. Cynllun y Safle | |
| 11. Gwybodaeth Arall | |
| 12 Rhestr o Gynlluniau a dogfennau atodedig | |

**DEDDF RHEOLI LLYGREDD 1974**

# Goddefeb o Gydsyniad Adran a61

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod Contractwr A61:** | |
| **Cyfeirnod A61 yr Awdurdod Lleol:** | |

**I: Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir**

**GWNAF/GWNAWN DRWY HYN GAIS** am oddefeb mewn perthynas â gwaith i'w wneud fel y nodir dan gydsyniad Adran 61 Deddf Rheoli Llygredd 1974.

Llofnod ........................................................................................ Dyddiad ............................................................

MANYLION YR YMGEISYDD:

Enw…………………………

Cyfeiriad…………………………..

………………………………………………………………………………………………………..

Cod Post…………………..

Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig...................................................................

…………………………………………………………………………………………………………

Cod Post

Ffôn......................................................................

E-bost:…………………………………………………………………..

| | |
|---|---|
| Hyd y gwaith sydd angen caniatâd | |
| Dyddiad y gwaith sydd angen caniatâd | |

| | |
|---|---|
| | |
| Disgrifiad byr o waith/newidiadau ychwanegol i fethodoleg gwaith | |
| Noder rhesymau pam na ellir gwneud gwaith o dan delerau caniatâd gwreiddiol | |
| Disgrifiwch unrhyw newidiadau i oriau gwaith | |
| Rhestrwch offer a chyfarpar ychwanegol | |
| Disgrifiwch fesurau lliniaru sŵn BPM | |
| Noder diwygiadau i lefelau sŵn a ragwelir, gan gynnwys ailasesu ar gyfer inswleiddio sŵn neu ailgartrefu dros dro Darparwch daflenni ar wahân os oes angen | |
| Pryd a sut mae trigolion i'w hysbysu. (Darparwch gopi o'r llythyr sydd ynghlwm) | |

Shared **Regulatory** Services
Gwasanaethau **Rheoliadol** a Rennir

**DEDDF RHEOLI LLYGREDD 1974**

# Amrywiad o Gydsyniad Adran a61

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod Contractwr a61:** | |
| **Cyfeirnod A61 yr Awdurdod Lleol:** | |

**I: Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir**

**GWNAF/GWNAWN DRWY HYN GAIS** am amrywiad mewn perthynas â gwaith i'w wneud fel y nodir dan gydsyniad Adran 61 Deddf Rheoli Llygredd 1974.

Llofnod ......................................................................................... Dyddiad ..............................................................

MANYLION YR YMGEISYDD:

Enw………………………….

Cyfeiriad…………………………..

………………………………………………………………………………………………………..

Cod Post…………………..

Cyfeiriad y swyddfa gofrestredig....................................................................

…………………………………………………………………………………………………………

Cod Post

Ffôn......................................................................

E-bost:…………………………………………………………………..

| | |
|---|---|
| Hyd y gwaith sydd angen ei amrywio | |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y gwaith sydd angen ei amrywio | |
| Disgrifiad byr o’r gwaith y cynigir ei wneud | |
| Noder rhesymau pam na ellir gwneud gwaith o dan delerau caniatâd gwreiddiol | |
| Disgrifiwch unrhyw newidiadau i oriau gwaith | |
| Disgrifiwch fesurau lliniaru sŵn BPM | |
| Pryd a sut mae trigolion i'w hysbysu. (Darparwch gopi o’r llythyr sydd ynghlwm) | |